

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach

Rhagfyr 2020

1. Cefndir

1. Cyflwynwyd Bil Masnach Llywodraeth y DU 2019-21¹ (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth 2020. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Masnach Ryngwladol.
2. Symudodd y Bil i Dŷ'r Arglwyddi ar 21 Gorffennaf 2020.²

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 2 Ebrill 2020, gosododd Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol³ gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.
4. Gwnaethom adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 30 Gorffennaf 2020 (yr adroddiad cyntaf).⁴ Mae'r adroddiad cyntaf yn nodi cefndir y Bil mewn mwy o fanylder, gan gynnwys manylion ynghylch Bil Masnachu 2017-19

¹ Y Bil Masnach, fel y'i cyflwynwyd [Bil Tŷ'r Cyffredin 120]

² Y Bil Masnach [Bil Tŷ'r Arglwyddi 128]

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Masnach, Ebrill 2020

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach, Gorffennaf 2020



(Bil 2017-19), sef darn o ddeddfwriaeth y mae'r Bil cyfredol yn debyg iddo mewn sawl ffordd. Mae'r adroddiad cyntaf hefyd yn crynhoi diben a chwmpas y Bil.

5. Atebodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i'n hadroddiad ar 11 Medi 2020.⁵

Materion yn ymwneud ag ymateb y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf

6. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom fynegi pryderon fod y Bil, yng nghymal 2(6) (a), yn caniatáu i Weinidogion y DU wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Fe ddywedom nad yw gallu Llywodraeth y DU i ddiwygio deddfwriaeth ddatganoli allweddol Cymru ar ei phen ei hun drwy is-ddeddfwriaeth yn rhywbeth y dylid ei negodi gan ddefnyddio'r arfer nad yw'n rhwymo o ymrwymïadau ym mlwch dogfennau Senedd y DU.⁶

7. O'r herwydd, nododd argymhelliad 4 ein hadroddiad cyntaf:

“Dylai'r Gweinidog geisio diwygiad i gymal 2(6)(a) o'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ei ddefnyddio i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.”

8. Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, dywedodd y Gweinidog:

“I liniaru'r risg fod Gweinidogion y DU yn defnyddio cymal 2 yn y modd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i sicrhau ymrwymïadau gan Lywodraeth y DU, er eu bod yn rhai rhynglywodraethol ac anneddfwriaethol nad ydynt yn rhwymo, na fydd pwerau cymal 2 yn cael eu defnyddio ym meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. (...)

Fodd bynnag, er bod Llywodraeth y DU wedi nodi o'r blaen nad yw'n bwriadu arfer y pwerau cymal 2 i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac wedi gwneud sylwadau yn y blwch dogfennau na fydd yn gwneud hynny fel rheol, ac nad ydym yn rhagweld sefyllfa lle byddai angen gwneud hynny erioed, rydym yn cydnabod bod risg fach y gallai Gweinidogion y DU arfer y pwerau hyn. Rydym yn cytuno â Senedd Cymru nad yw'n dderbyniol i Weinidogion y DU ddefnyddio

⁵ [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol](#), 11 Medi 2020

⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach, Gorffennaf 2020, paragraff 47

pwerau eilaidd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol graidd sy'n sail i'r setliad datganoli.

Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru.”⁷

9. Rydym yn ymwybodol bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Arglwydd Llefarydd ar 11 Medi 2020 yn unol â'i hymateb i argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf.^{8 9}

10. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom wneud sylw hefyd ar y pŵer yng nghymal 2(7) o'r Bil, a fyddai'n galluogi rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU i ymestyn yr amser pryd y gall Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau cymal 2 am gyfnod pellach hyd at 5 mlynedd, heb orfod ymgynghori â Gweinidogion Cymru na gofyn am gydsyniad y Senedd.

11. Dywedasom y dylai rheoliadau a wneir o dan gymal 2(7) fod yn ddarostyngedig i gydsyniad y Senedd.¹⁰ Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf¹¹, yn ein barn ni, byddai'n fwy priodol sicrhau cydsyniad y Senedd cyn ehangu gallu Gweinidogion Cymru i arfer pwerau gweithredol yng Nghymru.

12. Nododd argymhelliad 7 ein hadroddiad cyntaf:

“Dylai'r Gweinidog geisio diwygiad i'r Bil i sicrhau ei bod yn ofynnol i Lywodraeth y DU gael cydsyniad y Senedd cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2(7).”

⁷ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Medi 2020

⁸ ~~Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Fowler, Arglwydd Llefarydd, Tŷ'r Arglwyddi~~, 11 Medi 2020

⁹ Anfonwyd copi o'r llythyr hefyd at Arweinydd y Tŷ; yr Arweinydd Cysgodol; Cynullydd Arglwyddi'r Meinciau Croes; yr Arglwydd Grimstone o Boscobel Kt, y Gweinidog Buddsoddi, Llywodraeth y DU; yr Is-iarll Younger o Leckie, yr Arglwydd Preswyl (Chwip y Llywodraeth), Llywodraeth y DU; Ivan Mckee MSP, y Gweinidog dros Fasnach, Buddsoddi ac Arloesi, Llywodraeth yr Alban; a Diane Dodds MLA, Gweinidog yr Economi, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach, Gorffennaf 2020, paragraff 53

¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach, Gorffennaf 2020, paragraff 53

13. Gwrthododd y Gweinidog yr argymhelliad hwn. Yn ei hymateb i'n hadroddiad cyntaf, dywedodd:

“Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi cyrraedd safbwynt lle roedd yn fodlon argymhell rhoi cydsyniad deddfwriaethol i gymal 2(7) ar sail ymrwymadau anneddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19, a oedd yn cynnwys ymrwymiad yn y blwch dogfennau i ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig cyn ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau cymal 2 o dan y Bil ynddo. Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn, a rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.

(...) mae ymrwymadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif mewn perthynas â Biliau'r DU. Felly, yn yr achos hwn, byddai dibynnu ar ymrwymiad yn y blwch dogfennau yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer deddfwriaeth arall.

Serch hynny, nodwyd bod yr ymrwymiad hwn wedi'i wneud ar 17 Gorffennaf 2018 ac nad yw wedi'i ailddatgan yn benodol gan y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod machlud. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU gan ofyn a fyddai Gweinidogion yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn yn benodol yn y blwch dogfennau yn ystod camau Tŷ'r Arglwyddi.”

14. Rydym yn ymwybodol bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach ar 11 Medi 2020 yn unol â'i hymateb i argymhelliad 7 yn ein hadroddiad cyntaf.^{12 13}

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

15. Ar 4 Tachwedd 2020, gosododd Jeremy Miles AS¹⁴, y Cwnsler Cyffredinol, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)

¹² Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at Greg Hands AS, y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, 11 Medi 2020

¹³ Anfonwyd copi o'r llythyr hwn hefyd at yr Arglwydd Grimstone o Boscobel Kt, y Gweinidog Buddsoddi, a'r Is-iarll Younger o Leckie, yr Arglwydd Preswyl (Chwip y Llywodraeth)

¹⁴ Yn dilyn ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru ar 8 Hydref 2020, daeth y Cwnsler Cyffredinol yn gyfrifol am y Bil Masnach ac am gysgodi trafodaethau masnach ryngwladol y DU.

(Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.¹⁵

16. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor), a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 erbyn 18 Rhagfyr 2020.¹⁶ Yn ddiweddarach, adolygwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad i 11 Rhagfyr 2020.¹⁷

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

17. Roedd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a osodwyd ar 2 Ebrill 2020, yn cwmpasu Rhan 1, Cymalau 1 i 4 ac Atodlenni 1, 2 a 3 o'r Bil. Nid oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yn Rhannau 2 neu 3 o'r Bil fel y'u cyflwynwyd yn sbarduno Rheol Sefydlog 29.

18. Mae paragraffau 9 i 11 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 yn disgrifio'r diwygiadau a wnaed i'r Bil, gan gyflwyno cymalau 9 a 10 newydd yn Rhan 3 o'r Bil (yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin) y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch.

19. Mae Rhan 3 o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Mae Rhan 3 wedi cael ei diwygio ers hynny, i gynnwys darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus eraill.

20. Mae cymal 9(1) yn darparu y caiff awdurdod cyhoeddus penodedig ddatgelu gwybodaeth at ddibenion hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â masnach. Mae awdurdodau cyhoeddus penodedig, fel y nodir yng nghymal 9(3), yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd a gyfansoddiwyd o dan adran 2 o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984*. Mae'r diffiniad o awdurdod iechyd porthladd yn cynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd Cymru sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac mae'n ddigon helaeth i alluogi awdurdodau o'r fath i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion nas cedwir yn ôl i Un o Weinidogion y Goron. Mae'r awdurdodau

¹⁵ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), Y Bil Masnach](#), Tachwedd 2020

¹⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach](#), Tachwedd 2020

¹⁷ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach](#), Tachwedd 2020

cyhoeddus penodedig eraill y cyfeirir atynt yng nghymal 9 (3) yn awdurdodau a gedwir yn ôl.

21. Mae cymal 9(9) yn darparu y caiff Un o Weinidogion y Goron ddiwygio'r rhestr o awdurdodau penodedig yng nghymal 9(3) drwy offeryn statudol, ar yr amod ei bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Gellir arfer y pŵer hwnnw i ychwanegu neu ddileu awdurdodau datganoledig Cymru o'r rhestr.

22. Mae cymal 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosedd newydd mewn perthynas â datgelu gwybodaeth a bennir yng nghymal 9. Mae cymal 10 yn darparu y byddai'n drosedd i berson ddatgelu gwybodaeth bersonol y gellid ei chysylltu ag unigolyn, yn groes i'r gofynion yng nghymal 9, mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Dim ond gyda chaniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y gellir gweithredu erlyniad am y drosedd yng Nghymru a Lloegr. Gellir cosbi unigolyn sy'n euog o drosedd o'r fath gan ddirwy a/neu gyfnod o garchar am hyd at gyfnod o ddwy flynedd ar dditiad neu hyd at 12 mis ar gollfarn ddiannod.

23. Mae'r Memorandwm yn nodi:

“Mae angen mecanwaith cyfreithiol ar Lywodraeth y DU i'w galluogi i ofyn am fynediad at wybodaeth a gedwir gan ystod eang awdurdodau cyhoeddus ac i rannu'r wybodaeth honno. Gallai cael mynediad at ystod ehangach o ddata datganoledig a data a gedwir yn ôl wella gallu Llywodraeth y DU i ymateb i faterion yn ymwneud â'r ffin, cynllunio mentrau rheoli traffig a gwella llifoedd masnach.”¹⁸

24. Er ei bod yn cefnogi'r gwelliannau, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio'r sicrwydd canlynol er mwyn sicrhau y gwelir manteision yng Nghymru:

- Y bydd Llywodraeth y DU yn rhannu unrhyw ddadansoddiadau sy'n berthnasol i gyflawni cyfrifoldebau datganoledig â Gweinidogion Cymru. (Gallai cymal 9 (5) alluogi Un o Weinidogion y Goron i ddatgelu data i Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau lle mae'r data'n berthnasol i swyddogaethau datganoledig Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â masnach, megis rheoli traffig o amgylch porthladdoedd allweddol);

¹⁸ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 12

- Y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn ychwanegu neu dynnu unrhyw awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o'r porth rhannu data yng nghymal 9.¹⁹

25. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi cael digon o sicrwydd²⁰ mewn ymateb i'r ceisiadau hyn, a hefyd yn nodi'r ddau ymrwymiad canlynol a wnaed yn y blwch dogfennau yng **Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 15 Hydref 2020**²¹:

“Yn gyntaf, bydd y data a rennir o dan Gymal 9 yn cael ei ddefnyddio gan y ganolfan effaith ar y ffin a Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu dealltwriaeth strategol. Maent wedi ymrwymo i rannu dadansoddiadau strategol sy'n gysylltiedig â llif masnach, lle bydd yn cefnogi'r gwaith o reoli llif drwy'r ffin yn fwy effeithiol. Deallaf fod swyddogion Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau y gellir rhannu dadansoddiadau a gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â masnachu a rheoli'r ffin i gefnogi swyddogaethau datganoledig. Enghraifft o'r mathau o wybodaeth y mae'r ganolfan effaith ar y ffin yn bwriadu eu rhannu â phartion perthnasol yn y gwledydd datganoledig yw patrymau llif drwy borthladdoedd. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn parhau i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y ganolfan effaith ar y ffin yn darparu manteision strategol i'r gwaith o reoli'r llif drwy borthladdoedd allweddol.

Yn ail, bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn i unrhyw awdurdodau datganoledig gael eu hychwanegu at y rhestr o awdurdodau penodedig a all rannu data o dan Gymal 9, neu ei ddileu oddi arni.”²²

26. Ar y sail bod y sicrwydd a ddarperir yn ddigonol i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth fanylach i gynyddu galluoedd rheoli ffiniau a gwella data llif masnach, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad.²³

¹⁹ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 13

²⁰ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 14

²¹ Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin, 15 Hydref 2020, col 1247

²² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 15

²³ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraffau 16-17

2. Trafodaeth y Pwyllgor

27. Gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 9 Tachwedd 2020.²⁴

Ein barn ni

28. Manylir ar ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu pellach yn y paragraffau a ganlyn. Dylid darllen ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 ochr yn ochr â'n hadroddiad cyntaf ar y Bil.

29. Rydym yn cydnabod ymateb y Gweinidog i'r argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf. Rydym yn siomedig bod y Gweinidog wedi gwrthod y rhan fwyaf o'n hargymhellion. At hynny, rydym o'r farn bod rhesymeg y Gweinidog, mewn nifer o achosion, yn anfoddhaol.

30. Er enghraifft, gofynodd argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf i'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn ceisio adolygiad o'r weithdrefn sydd i'w chymhwyso i reoliadau a wneir o dan gymal 1 o'r Bil. Wrth wrthod yr argymhelliad hwn, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth bresennol y DU mewn "safle cryfach" ac felly "mae'n eithriadol o annhebygol y byddai unrhyw sylwadau y byddem [Llywodraeth Cymru] yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn cael eu hystyried o ddifrif"²⁵. Yn ein barn ni, mae'r ymateb hwn, a'r egwyddor sy'n sail iddo, yn annerbyniol.

31. O ran argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf, er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, ac yn nodi ei bod wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr Senedd y DU yn gofyn am ddiwygiad i gymal 2(6)(a) o'r Bil, nid yw'n glir i ni pam na chododd y Gweinidog y mater hwn yn uniongyrchol gyda Gweinidogion y DU a gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno'r diwygiad angenrheidiol. At hynny, rydym yn parhau'n ansicr ynghylch a gafodd unrhyw ddiwygiad o'r fath ei gyflwyno a'i gytuno.

Recommendation 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro, cyn unrhyw bleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio diwygiad i gymal 2(6)(a) gyda Gweinidogion y DU i'r perwyl na

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaethol, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Tachwedd 2020

²⁵ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Medi 2020

all Gweinidogion y DU ei ddefnyddio i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*."

Recommendation 2. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, cyn unrhyw bleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, gadarnhau a yw cymal 2(6) o'r Bil wedi cael ei ddiwygio i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ei ddefnyddio i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

32. Rydym hefyd yn aneglur a yw gohebiaeth y Gweinidog â Gweinidog Gwladol y DU dros Bolisi Masnach mewn perthynas ag argymhelliad 7 yn ein hadroddiad cyntaf wedi arwain at roi'r ymrwymiad perthnasol i'r blwch dogfennau.

Recommendation 3. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, cyn unrhyw bleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, gadarnhau a yw Llywodraeth y DU wedi gwneud yr ymrwymiad i'r blwch dogfennau, ac a fydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn y broses benderfynu cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r pŵer yng nghymal 2(7) o'r Bil i ymestyn y cyfnod machlud.

33. Mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi diweddariad i ni, na'r Senedd, am ddatblygiadau perthnasol yn Senedd y DU mewn perthynas â'r ddau fater hyn. Yn ein barn ni, byddai wedi bod yn briodol darparu diweddariad o'r fath ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2.

34. O ran Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2, nodwn mai barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 9 a 10 newydd o'r Bil.

35. Yn benodol mewn perthynas â'r pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 9(9) o'r Bil, nodwn mai pŵer Harri VIII yw hwn sy'n galluogi defnyddio rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus penodedig yng nghymal 9(3). Rydym yn nodi ymhellach y bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

36. At hynny, rydym yn cydnabod y bydd angen memorandwm cydsynio offeryn statudol yn unol â Rheol Sefydlog 30A pe bai Un o Weinidogion y Goron yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â Chymru, trwy ddiwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus yng nghymal 9(3) i gynnwys awdurdodau a gedwir yn ôl.

37. Mae ein sylwadau olaf yn ymwneud â rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn y Bil. Rydym yn cydnabod y casgliad y daethpwyd iddo ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 bod y sicrwydd a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn ddigonol i arwain y Cwnsler Cyffredinol i argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad.

38. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'n pryderon ynghylch defnyddio mathau amrywiol o gytundebau rhynglywodraethol dro ar ôl tro, p'un a ydynt yn femoranda cyd-ddealltwriaeth neu'n ymrwymadau a siaredir yn y blwch dogfennau. Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y defnydd cynyddol o gytundebau nad ydynt yn rhwymol o'r fath.